Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Nerys Llewelyn Jones
Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

Ebrill 2023

Annwyl Nerys,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Chwefror yn amgáu copi o'ch adroddiad ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Rwy'n hynod ddiolchgar i chi am y gwaith rydych wedi'i wneud i drafod â rhanddeiliaid ar y mater hwn a hefyd i asesu effaith bosibl y Bil ar y gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Bydd eich adroddiad a'ch argymhellion yn gyfraniad defnyddiol iawn at asesiad Llywodraeth Cymru ei hun o effaith y Bil.

Mae Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn cytuno'n fawr iawn â'r problemau a'r pryderon godwyd gennych yn eich adroddiad. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu holl fwriad y Bil, gan gynnwys y cysyniad o ddyddiad machlud, yn ei hanfod. Yn gyffredinol, ein barn ni yw bod cyfraith yr UE a ddargedwir (REUL), fel cyfraith yr UE cyn hynny, yn gweithio'n dda. Nid oedd gennym unrhyw fwriad i ddiddymu, dirymu na diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir, yn enwedig erbyn dyddiad cau mympwyol. Byddai Bil Llywodraeth y DU, fel y mae, yn diddymu amddiffyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hanfodol, a hynny'n ddiofyn. Mae hyn yn annerbyniol ac yn anghyfrifol. Fel y dywed eich adroddiad yn glir, ni ddylid diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir ond ar ôl casglu tystiolaeth, ymgynghori â'r cyhoedd a phroses graffu, fel sy'n arferol cyn newid deddfwriaeth.

Mae'ch adroddiad wedi delio â goblygiadau'r Bil yn drylwyr ac rwy'n ddiolchgar i chi am eich argymhellion, sy'n delio â materion fel y dyddiad machlud, cydsynio a beichiau rheoleiddio. Rwyf wedi cynnwys ymatebion unigol i'r argymhellion fel atodiad i'r llythyr hwn. Fel y gwyddoch, caiff fy ymateb i ynghyd â'ch adroddiad chi, eu gosod gerbron Senedd Cymru. Bydd eich adroddiad felly'n dystiolaeth ddefnyddiol wrth i ni barhau i leisio ein pryderon wrth Lywodraeth y DU ynghylch materion o'r fath gan fwydo ein gwaith wedi hynny ar y Bil hwn.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad

Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru – Adroddiad ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio): Argymhellion ac Ymateb Llywodraeth Cymru.

Mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (yr Asesydd) yn ystyried pryderon a leisiwyd gan aelodau'r cyhoeddi ynghylch y ffordd mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae'r Asesydd yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch a yw'r pryderon a leisir yn ddilys, ac yn gwneud argymhellion ynghylch unrhyw gamau y mae angen eu cymryd yn ei barn hi.

Cafodd yr Asesydd glywed nifer o bryderon gan randdeiliaid am Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a gynigir gan Lywodraeth y DU, a'i effaith bosibl ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Ar ôl eu hystyried, cyflwynodd yr Asesydd adroddiad i'r Gweinidog Newid Hinsawdd ym mis Chwefror 2023. Mae'r Adroddiad yn gwneud 11 argymhelliad i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag amryw agweddau ar y Bil.

Isod mae amlinelliad o ymateb y Gweinidog Newid Hinsawdd i bob un o'r argymhellion a chaiff ei roi gerbron y Senedd gyda'r adroddiad.

Argymhelliad 1: *Dylai Llywodraeth Cymru bennu'r canlynol:*
1) pa brosesau a roddir ar waith ganddi i sicrhau y caiff effeithiau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru eu hystyried a'u rheoli'n briodol;
2) pa adnoddau sydd ar gael i reoli'r prosesau hyn.

Mae union effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn y bôn yn dibynnu ar benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud gan Weinidogion y DU o fewn fframwaith y Bil ar ôl iddo ddod yn gyfraith, ynghyd ag unrhyw newidiadau a wneir yn ystod ei daith drwy Senedd y DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru, fel llawer o'r ymatebwyr y gofynnwyd iddynt roi tystiolaeth, yn bryderus iawn am effaith bosibl y Bil ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Rydym wedi creu tîm i gydgysylltu polisi yr amgylchedd a meysydd polisi eraill y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt y bydd y Bil yn effeithio arnynt. Rydym hefyd wedi clywed barn grwpiau a mudiadau sydd wedi ysgrifennu atom neu gysylltu â ni ac mae eu sylwadau wedi bod yn werthfawr i'n helpu i ddeall effeithiau posibl y Bil. Rydym wedi croesawu sylwadau pawb a byddwn yn gweithio gydag eraill wrth i fanylion y Bil ddod yn gliriach.

Mae adnoddau o bob un o'r meysydd polisi yn cael eu neilltuo i adolygu ac ystyried gwybodaeth gan Lywodraeth y DU am eu cynigion ynghylch darnau unigol o gyfraith amgylcheddol wrth iddynt ymddangos. Mae'r adnoddau'n brin a bu'n rhaid eu hystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Mae ymhell o fod yn ddelfrydol bod rhaid cymryd adnoddau o flaenoriaethau eraill i ddelio â'r Bil i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y penderfyniad cywir i Gymru. Law yn llaw â hynny, rydym wrthi hefyd yn ystyried statws deddfwriaeth a wnaed gan Senedd Cymru. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo a bydd gennym gobeithio ddarlun mwy cyflawn cyn bo hir.

Argymhelliad 2*: Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i gael gwared â'r cymal machlud mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, neu roi'r pŵer i lywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ymestyn y terfyn amser eu hunain. Fel gofyniad sylfaenol, dylid annog Llywodraeth y DU i ymestyn y dyddiad machlud er mwyn rhoi digon o amser i asesu cyfreithiau'r UE a ddargedwir ac er mwyn i lywodraethau mewn*

gwahanol rannau o'r DU allu ystyried yn llwyr pa ddeddfwriaethau newydd y gellid eu cyflwyno i wella canlyniadau amgylcheddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r pryderon sydd wedi'u mynegi yn yr adroddiad; rydym yn gwrthwynebu'n gryf holl fwriad y Bil yn ei hanfod, gan gynnwys y cysyniad o ddyddiad machlud. Rydym wedi rhannu'r pwyntiau hyn â Lywodraeth y DU yn ysgrifenedig ac mewn cyfarfodydd. A byddwn yn parhau i wneud. Rydym hefyd wedi pwyso am ddiwygiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru estyn y dyddiad machlud. Yn anffodus nid yw Llywodraeth y DU hyd yma wedi newid ei meddwl ynghylch y materion hyn.

Argymhelliad 3*: Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i gyhoeddi'n ddi-oed restr gynhwysfawr o'r holl ddeddfwriaethau ledled y gweinyddiaethau datganoledig y bydd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn effeithio arnynt, ynghyd â chyflwyno'n ddi-oed ddadansoddiad llawn o'r deddfwriaethau y bydd y Bil yn effeithio arnynt. Rhaid i hyn ddigwydd o'r cychwyn cyntaf. Yn dilyn hyn, rhaid rhoi digon o amser i'r partïon a'r rhanddeiliaid o dan sylw roi ystyriaeth lawn i effaith y Bil cyn iddo gael ei basio.*

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r pryderon sydd wedi'u mynegi yn yr adroddiad ac rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU yn eu cylch. Nid ydym yn credu y dylai'r hyn a elwir yn "ddangosfwrdd" wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth y DU, sy'n rhestru darnau o gyfraith yr UE a ddargedwir, yn gywir, yn gynhwysfawr nac yn ddigonol. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw nodi a chyhoeddi rhestr o'r fath ond yn rhan o'r broses, ac y dylai Llywodraeth y DU wneud ei bwriad yn glir mewn perthynas â phob darn o gyfraith yr UE a ddargedwir cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn cydnabod y bydd cydweithio ag eraill yn ein helpu i ddeall effaith y niwed posibl gan Lywodraeth y DU a'i leihau. Yng nghyfarfod diweddar y Grŵp Rhyng-weinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ym mis Ebrill, gwnaethon ni bwyso ar Weinidogion Defra i gyhoeddi rhestr ddrafft o ddeddfwriaeth yn y meysydd hyn ac o'u bwriadau o dan y Bil, gan roi digon o amser i randdeiliaid allu eu hystyried yn llawn a chynnig sylwadau ar y cynigion. Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn, sy'n disgrifio'n pryderon yn glir, yn ein helpu i gydweithio mwy ar y cynigion yn y Bil.

Argymhelliad 4*: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno rheoliadau sy'n anelu at gadw cyfraith amgylcheddol yr UE a ddargedwir yng Nghymru. Ni ddylai'r rheoliadau hyn gynnwys unrhyw gymalau machlud. Dylai'r rheoliadau sicrhau bod modd i lunwyr polisïau ystyried yn llwyr ble gellir cyflwyno gwelliannau i fframwaith presennol ein cyfraith amgylcheddol. Mewn meysydd lle gellir cyflwyno gwelliannau, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cynhelir ymgynghoriad pellgyrhaeddol, clir ac amserol, a bod y rheoliadau drafft yn destun craffu seneddol llawn yn y Senedd.*

Fel yr amlinellir yn fy ymateb i argymhelliad 2, mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'n gryf holl fwriad y Bil yn ei hanfod, gan gynnwys y cysyniad o ddyddiad machlud. Nid ydym yn bwriadu caniatáu i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys cyfraith amgylcheddol yr UE a ddargedwir, ddod i ben oni bai bod rhesymau hynod dda dros wneud hyn. Rydym wrthi felly'n ystyried pob opsiwn ar gyfer lleihau effeithiau negyddol y Bil ar bobl Cymru. Nid yw hynny'n golygu nad ydym yn cydnabod nad oes rhai meysydd lle gellid gwella fframwaith y gyfraith amgylcheddol i sicrhau ei fod yn ateb y diben o ran mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Er hynny, rydym yn cytuno'n llwyr â'r adroddiad bod angen i Senedd Cymru ymgynghori ac ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid ar unrhyw gynigion a ddaw o ganlyniad i'r Bil i wneud newidiadau arwyddocaol i ddeddfwriaeth amgylcheddol.

Argymhelliad 5*: Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw'r pwerau a roddir gan y Bil hwn yn rhy eang. Hefyd, dylai'r Bil gynnwys gofyniad i sicrhau bod deddfwriaethau a gyflwynir o dan y pwerau hyn yn destun craffu llawn yn eu priod seneddau ac yr ymgynghorir yn eang yn eu cylch yn gynnar yn y broses gyda rhanddeiliaid â buddiant. Yn absenoldeb sicrwydd o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth amgylcheddol yng Nghymru a roddir o dan y pwerau hyn yn destun craffu trylwyr yn y Senedd ac yr ymgynghorir yn llwyr yn eu cylch, i'r graddau y bo hynny'n bosibl o fewn yr amserlenni a bennir gan y Bil.*

Rydym yn cytuno bod angen craffu'n briodol ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol a gyflwynir gan y Bil hwn trwy drefniadau seneddol priodol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil wedi'i lunio'n wael, gydag effeithiau diangen o annelwig, a'i fod yn rhoi gormod o bŵer i Weinidogion heb roi'r cyfle i ddeddfwrfeydd allu craffu'n briodol. Rydym yn cytuno hefyd ei bod yn angenrheidiol ymgynghori'n llawn ac yn fuan â rhanddeiliaid. Rydym wedi gwneud y pwyntiau hyn yn glir wrth Weinidogion y DU, ac wedi cefnogi diwygiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi er mwyn i ddeddfwrfeydd allu craffu'n galetach ar y mesurau o dan y Bil. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud newidiadau polisi arwyddocaol i ddeddfwriaeth amgylcheddol nac unrhyw ddeddfwriaeth arall, â'r pwerau a roddid i Weinidogion Cymru o dan y Bil. Ond fel y dywedwyd yn ein hymateb i'r argymhellion blaenorol, rydym yn llwyr gytuno â'r adroddiad bod angen i Senedd Cymru ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar unrhyw gynigion a ddaw o ganlyniad i'r Bil i wneud newidiadau arwyddocaol i ddeddfwriaeth amgylcheddol.

Argymhelliad 6*: Dylai Llywodraeth Cymru bwyso i gyflwyno newidiadau i'r Bil er mwyn atal deddfwriaeth amgylcheddol rhag cael ei dirymu'n awtomatig heb gymeradwyaeth ddatganedig Senedd y DU / Senedd Cymru. Yn yr un modd, ni ddylai unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth amgylcheddol gael ei ddirymu heb gynnal ymgynghoriad a heb asesu'r effaith yn llawn.*

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bryderus y bydd y ddarpariaeth ar gyfer dyddiad machlud yn golygu na fydd gan Senedd y DU na'r deddfwrfeydd datganoledig unrhyw rôl graffu na goruchwylio pan fydd y cymal machlud yn digwydd yn awtomatig mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir, ac mae wedi ceisio newidiadau i'r Bil yn hyn o beth. Rydym yn pwyso hefyd ar Lywodraeth y DU i ddarparu ei rhestr o ddeddfwriaeth y mae'n cynnig ei diddymu fel cam cyntaf, er mwyn sicrhau bod pawb perthnasol yn cael amser i ystyried y cynigion ac ymateb iddynt. Lle bo cynnig i ddiddymu'n ymwneud â chyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ddiangen neu'n anarferedig, mae'n debygol y gwnawn ni ei gefnogi. Byddem serch hynny am sicrhau y cynhelir ymgynghori priodol â rhanddeiliaid ac asesiadau effaith mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth amgylcheddol a gyflwynir o ganlyniad i'r Bil.

Argymhelliad 7*: Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i dderbyn argymhelliad Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, sef y dylid cynnwys egwyddor 'dim atchwelyd' mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Yn absenoldeb yr egwyddor hon ar lefel y DU, dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad clir na ddylid cyflwyno unrhyw newidiadau i gyfraith amgylcheddol yng Nghymru o ganlyniad i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir oni bai y byddai'r newidiadau hynny'n diogelu mwy ar yr amgylchedd, neu fan leiaf yn diogelu'r amgylchedd i'r un graddau â'r lefel bresennol.*

Rydym yn cytuno nad ydym am weld y Bil yn arwain at ddirywiad yn safonau amgylcheddol Cymru. Mae'n hen ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod safonau amgylcheddol yn cael eu cynnal, eu cryfhau a'u gwella yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Nid yw Llywodraeth Cymru felly yn bwriadu caniatáu i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys cyfraith amgylcheddol yr UE a ddargedwir, ddod i ben na

chaniatáu dirywio safonau heddiw nac yfory oni bai bod rhesymau hynod dda am wneud hyn. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU ynghylch ein bwriad i gynnal safonau amgylcheddol ac na ddylai'r newidiadau a ddaw o ganlyniad i'r Bil arwain at lai o amddiffyniad i'r amgylchedd.

Argymhelliad 8*: Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i ddiwygio geiriad y Bil fel na ellir dehongli bod yna rwystr i gynyddu beichiau rheoleiddio pan fo hynny'n angenrheidiol i sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell. Rhaid i unrhyw gynnydd mewn beichiau rheoleiddio fod yn destun ymgynghoriad manwl a rhaid asesu'r effeithiau posibl yn llwyr.*

Rydym yn cytuno y dylid cynnal ymgynghoriad priodol ar unrhyw gynigion i gynyddu'r mesurau rheoleiddio i wella'r amgylchedd neu i fodloni safonau amgylcheddol neu asesiad o'u heffaith. Mae ein trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y pryderon sydd gennym am y Bil wedi cynnwys y baich rheoleiddio fel cyfyngiad cwbl annerbyniol. Gan fod cymalau yn y Bil sy'n rhwystro cynyddu'r baich rheoleiddio, fel costau ariannol, anghyfleustra gweinyddol a phroffidioldeb, mae'n anodd gweld sut y gellid gwneud gwelliannau amgylcheddol. Rydym wedi ceisio newidiadau i'r Bil yn hyn o beth. Hyd yn hyn nid yw Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd inni eu bod yn fodlon gwneud newidiadau i'r Bil i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Argymhelliad 9*: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso i gynnwys darpariaeth ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir lle nodir yn glir na all Llywodraeth y DU geisio ailddatgan, diwygio na diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig yn ymwneud â chyfraith amgylcheddol heb gael cydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig.*

Mae Llywodraeth Cymru'n llwyr gytuno â hyn ac yn wir, mae wedi tynnu sylw Llywodraeth y DU at y pwyntiau hyn, ac wedi cefnogi diwygiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi i'r perwyl hwnnw. Rydym yn credu ei bod yn hanfodol i'r setliad datganoli y dylai Gweinidogion Cymru roi cydsyniad o'r fath cyn y caiff unrhyw fesur gan Weinidogion y DU mewn perthynas â materion datganoledig yng Nghymru fynd rhagddo, yn enwedig os yw'n ailddatgan, diwygio neu ddirymu unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir. Yn dilyn ymweliad diweddar â Chaergybi gyda Phrif Weinidog Cymru, mynegodd Prif Weinidog y DU ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau bod y priod adrannau'n ymgysylltu'n agored â'i gilydd am ddeddfwriaeth er mwyn i Lywodraeth Cymru allu ystyried argymell bod Senedd Cymru yn rhoi ei chydsyniad. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddilyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 10*: Dylai Llywodraeth Cymru bwyso i greu proses a dull clir a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl i'r pedair gwlad gydweithredu i ddadansoddi effeithiau'r Bil ar gyfraith amgylcheddol a chytuno ar ddulliau ar gyfer meysydd lle mae dull cydlynol yn ofynnol neu'n fanteisiol. Dylid sefydlu'r broses hon / y dull hwn trwy roi statws cydradd i'r pedair gwlad, a dylai'r prosesau/dulliau gael eu hategu gan weithgorau testunol.*

Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig cydweithio â llywodraethau eraill y DU ynghylch y gyfraith amgylcheddol. Mae Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir wedi bod yn eitem gyson ar agenda cyfarfodydd y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y mae'r Gweinidogion Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd a finnau'n eu mynychu ar ran Lywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp yn fecanwaith ddelfrydol ar gyfer gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig ac yn fforwm i drafod effaith y Bil ar gyfraith amgylcheddol. Mae'n destun siom bod y cyfle hwn wedi'i golli a bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i bob golwg wedi'i wfftio trwy beidio â dod i'r cyfarfodydd diwethaf. Rwyf wedi ysgrifennu droeon at yr Ysgrifennydd Gwladol gan fynegi'n pryder am ei habsenoldeb.

Rwyf wedi cael addewid gan yr Ysgrifennydd Gwladol erbyn hyn y bydd yn mynychu'r cyfarfod yn y dyfodol sy'n golygu y gallwn drafod y Bil gyda phob Llywodraeth yn bresennol.

Ar lefel swyddogion, mae Gweithgor y pedair gwlad ar yr Amgylchedd yn fforwm i'r pedair llywodraeth drafod rheoliadau amgylcheddol. Mae'n cynnwys bellach is-grŵp i drafod cyfraith amgylcheddol yr EU a ddargedwir lle gellid ystyried a thrafod cyfraith amgylcheddol y mae angen i'r pedair gwlad ymdrin â hi mewn ffordd gydgysylltiedig, gan gynnwys cyfleoedd i'w gwella wrth iddynt godi. Gellir anfon unrhyw broblemau sy'n codi o'r trafodaethau hyn i'r Grŵp Rhyng-weinidogol eu trafod. Lle bo gennym drefniadau wedi'u sefydlu o gwmpas ein Fframweithiau cyffredin, byddwn yn gallu'u defnyddio i drafod unrhyw gynigion i ddiwygio cyfraith amgylcheddol.

Argymhelliad 11*: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r rhyngweithio rhwng Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, yn enwedig o ran yr effeithiau posibl ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Hefyd, dylid ystyried pa fesurau a all fod ar gael i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a fyddai'n deillio o'r rhyngweithio hwn*

Rydym yn cytuno bod perthynas sylfaenol rhwng Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Deddf Marchnad Fewnol y DU. Heb ragfarnu ein barn nad oes unrhyw beth yn Neddf y Farchnad Fewnol all ffrwyno disgresiwn Senedd Cymru, mae'n bwysig asesu'r berthynas rhyngddynt. Ein bwriad yw gwneud hynny wrth i fwriadau Llywodraeth y DU ar gyfer darnau unigol o Gyfraith yr UE a ddargedwir ddod yn glir. Bydd y berthynas yn un gymhleth mewn rhai meysydd ac felly bydd angen eu hystyried yn ofalus er mwyn deall lle gallai effeithiau negyddol godi.

Hoffwn ddiolch i Asesydd Mewnol Diogelu'r Amgylchedd Cymru unwaith eto am roi o'i hamser ac am ystyried effeithiau'r Bil ar gyfraith amgylcheddol a'i oblygiadau yng Nghymru. Bydd yr argymhellion hyn yn helpu eraill wrth iddynt ystyried y Bil a'i argymhellion, a byddant yn parhau i'n helpu ni yn ein hymwneud â Llywodraeth y DU a'n trafodaethau ar lefel swyddogion. Deil yn bwysig nad ydym yn colli trwy ddamwain ar ddiwedd y flwyddyn trwy'r mesurau machlud sy'n cael eu cynnig yr hawliau a'r amddiffyniadau y mae deddfwriaeth Ewrop wedi'u rhoi. Byddwn yn parhau i ystyried pob opsiwn i sicrhau na all hynny ddigwydd.

PLEASE LEAVE BLANK